



**Y TESTAMENT NEWYDD
a'r SALMAU**

**Y BEIBL CYMRAEG NEWYDD
ARGRAFFIAD DIWYGIEDIG**

Cymdeithas y Beibl

**LLYFRAU'R
TESTAMENT NEWYDD A'R SALMAU**

<i>Llyfr</i>	<i>Tudalen</i>
Mathew	1
Marc	89
Luc	145
Ioan	239
Actau	308
Rhufeiniaid	393
1 Corinthiaid	432
2 Corinthiaid	467
Galatiaid	491
Effesiaid	504
Philipiaid	516
Colosiaid	525
1 Thesaloniaid	534
2 Thesaloniaid	542
1 Timotheus	547
2 Timotheus	557
Titus	565
Philemon	570
Hebreaid	572
Iago	600
1 Pedr	610
2 Pedr	621
1 Ioan	628
2 Ioan	638
3 Ioan	640
Jwdas	642
Datguddiad	646
Salmau	688

YR EFENGYL YN ÔL

MATHEW

Llinach Iesu Grist

Lc. 3:23–38

1 Dyma restr achau Iesu Grist, Mab Dafydd, mab Abraham.

²Yr oedd Abraham yn dad i Isaac, Isaac yn dad i Jacob, a Jacob yn dad i Jwda a'i frodyr.

³Yr oedd Jwda yn dad i Peres a Sera, a Tamar yn fam iddynt; yr oedd Peres yn dad i Hesron, Hesron i Ram, ⁴Ram i Amminadab, Amminadab i Nahson, Nahson i Salmon; ⁵yr oedd Salmon yn dad i Boas, a Rahab yn fam iddo, Boas yn dad i Obed, a Ruth yn fam iddo, Obed yn dad i Jesse, ⁶a Jesse yn dad i'r Brenin Dafydd.

Yr oedd Dafydd yn dad i Solomon, a gwraig Ureia yn fam iddo, ⁷yr oedd Solomon yn dad i Rehoboam, Rehoboam yn dad i Abeia, ac Abeia'n dad i Asa. ⁸Yr oedd Asa'n dad i Jehosaffat, Jehosaffat i Joram, Joram i Usseia, ⁹Usseia i Jotham, Jotham i Ahas, Ahas i Heseceia, ¹⁰Heseceia i Manasse, Manasse i Amon, ac Amon

i Joseia. ¹¹Yr oedd Joseia yn dad i Jechoneia a'i frodyr yng nghyfnod y gaethglud i Fabilon.

¹²Ar ôl y gaethglud i Fabilon, yr oedd Jechoneia yn dad i Salathiel, Salathiel i Sorobabel, ¹³Sorobabel i Abiwd, Abiwd i Eliacim, Eliacim i Asor, ¹⁴Asor i Sadoc, Sadoc i Achim, Achim i Eliwd, ¹⁵Eliwd i Eleasar, Eleasar i Mathan, a Mathan i Jacob. ¹⁶Yr oedd Jacob yn dad i Joseff, gŵr Mair, a hi a roddodd enedigaeth i Iesu, a elwid y Meseia.

¹⁷Felly, pedair ar ddeg yw cyfanrif y cenedlaethau o Abraham hyd Ddafydd, a phedair ar ddeg o Ddafydd hyd y gaethglud i Fabilon, a phedair ar ddeg hefyd o'r gaethglud i Fabilon hyd y Meseia.

Genedigaeth Iesu Grist

Lc. 2:1-7

¹⁸Fel hyn y bu genedigaeth Iesu Grist. Pan oedd Mair ei fam wedi ei dyweddïo i Joseff, cyn iddynt ddod at ei gilydd fe gafwyd ei bod hi'n feichiog o'r Ysbryd Glân. ¹⁹A chan ei fod yn ddyn cyfiawn, ond heb ddymuno ei chywilyddio'n gyhoeddus, penderfynodd Joseff, ei gŵr, ei gollwng ymaith yn ddirgel. ²⁰Ond wedi iddo gynllunio felly, dyma angel yr Arglwydd yn ymddangos iddo mewn breuddwyd, a dweud, "Joseff fab Dafydd, paid ag ofni cymryd Mair yn wraig i ti, oherwydd y mae'r hyn a genhedlwyd ynddi yn deillio o'r Ysbryd Glân. ²¹Bydd yn esgor ar fab, a gelwi ef Iesu, am mai ef a wareda ei bobl oddi wrth eu pechodau." ²²A digwyddodd hyn oll fel y cyflawnid y gair a lefarwyd gan yr Arglwydd trwy'r proffwyd:

²³ "Wele, bydd y wyryf yn beichiogi, ac yn esgor ar fab, a gelwir ef Immanuel",

hynny yw, o'i gyfieithu, "Y mae Duw gyda ni".
²⁴A phan ddeffrôdd Joseff o'i gwsg, gwnaeth fel yr oedd angel yr Arglwydd wedi gorchymyn, a chymryd Mair yn wraig iddo. ²⁵Ond ni chafodd gyfathrach â hi hyd nes iddi esgor ar fab; a galwodd ef Iesu.

Ymweliad y Seryddion

2 Wedi i Iesu gael ei eni ym Methlehem Jwdea yn nyddiau'r Brenin Herod, daeth seryddion o'r dwyrain i Jerwsalem ²a holi, "Ble mae'r hwn a anwyd yn frenin yr Iddewon? Oherwydd gwelsom ei seren ef ar ei chyfodiad, a daethom i'w addoli." ³A phan glywodd y Brenin Herod hyn, cythruddwyd ef, a Jerwsalem i gyd gydag ef. ⁴Galwodd ynghyd yr holl brif offeiriaid ac ysgrifenyddion y bobl, a holi ganddynt ble yr oedd y Meseia i gael ei eni. ⁵Eu hateb oedd, "Ym Methlehem Jwdea, oherwydd felly yr ysgrifennwyd gan y proffwyd:

⁶ 'A thithau Bethlehem yng ngwlad Jwda,
nid y lleiaf wyt ti o lawer ymysg
tywysogion Jwda,
cansys ohonot ti y daw allan arweinydd
a fydd yn fugail ar fy mhobl Israel.'

⁷Yna galwodd Herod y seryddion yn ddirgel ato, a holodd hwy'n fanwl pa bryd yr oedd y seren wedi ymddangos. ⁸Anfonodd hwy i Fethlehem gan ddweud, "Ewch, a chwiliwch yn fanwl am y plentyn, a phan fyddwch wedi dod o hyd iddo, rhowch wybod i mi er mwyn i minnau hefyd fynd a'i addoli." ⁹Wedi gwrando ar y brenin aethant ar eu taith, a dyma'r seren a welsent ar ei chyfodiad yn mynd o'u blaen hyd nes iddi ddod ac aros

uwchlaw'r man lle'r oedd y plentyn. ¹⁰A phan welsant y seren, yr oeddent yn llawen dros ben. ¹¹Daethant i'r tŷ a gweld y plentyn gyda Mair ei fam; syrthiasant i lawr a'i addoli, ac wedi agor eu trysorau offrymasant iddo anrhegion, aur a thus a myrr. ¹²Yna, ar ôl cael eu rhybuddio mewn breuddwyd i beidio â dychwelyd at Herod, aethant yn ôl i'w gwlad ar hyd ffordd arall.

Ffoi i'r Aifft

¹³Wedi iddynt ymadael, dyma angel yr Arglwydd yn ymddangos i Joseff mewn breuddwyd, ac yn dweud, "Cod, a chymer y plentyn a'i fam gyda thi, a ffo i'r Aifft, ac aros yno hyd nes y dywedaf wrthyt, oherwydd y mae Herod yn mynd i chwilio am y plentyn er mwyn ei ladd." ¹⁴Yna cododd Joseff, a chymerodd y plentyn a'i fam gydag ef liw nos, ac ymadael i'r Aifft. ¹⁵Arhosodd yno hyd farwolaeth Herod, fel y cyflawnid y gair a lefarwyd gan yr Arglwydd trwy'r proffwyd: "O'r Aifft y gelwais fy mab."

Lladd y Bechgyn

¹⁶Yna, pan ddeallodd Herod iddo gael ei dwyllo gan y seryddion, aeth yn gynddeiriog, a rhoddodd orchymyn i ladd pob bachgen ym Methlehem a'r holl gyffiniau oedd yn ddwyflwydd oed neu lai, gan gyfrif o'r amser yr holodd ef y seryddion. ¹⁷Felly y cyflawnwyd y gair a lefarwyd trwy Jeremeia'r proffwyd:

- ¹⁸ "Clywyd llef yn Rama,
wylofain a galaru dwys;
Rachel yn wylo am ei phlant,
ac ni fynnai ei chysuro, am nad oeddent
mwy."

LLYFR

Y SALMAU

LLYFR 1

- 1** Gwyn ei fyd y sawl
nad yw'n dilyn cyngor y drygionus
nac yn ymdroi hyd ffordd pechaduriaid
nac yn eistedd ar sedd gwatwarwyr,
² ond sy'n cael ei hyfrydwch yng nghyfraith
yr ARGLWYDD
ac yn myfyrio yn ei gyfraith ef ddydd a nos.
³ Y mae fel pren
wedi ei blannu wrth ffrydiau dŵr
ac yn rhoi ffrwyth yn ei dymor,
a'i ddeilen heb fod yn gwywo.
Beth bynnag a wna, fe lwydda.
- ⁴ Nid felly y bydd y drygionus,
ond fel us yn cael ei yrru gan wynt.
- ⁵ Am hynny, ni saif y drygionus yn y farn
na pechaduriaid yng nghynulleidfa'r
cyfiawn.

⁶ Y mae'r ARGLWYDD yn gwyllo ffordd y
cyfiawn,
ond y mae ffordd y drygionus yn darfod.

2 Pam y mae'r cenhedloedd yn terfysgu
a'r bobloedd yn cynllwyn yn ofer?

² Y mae brenhinoedd y ddaear yn barod,
a'r llywodraethwyr yn ymgynghori â'i
gilydd

yn erbyn yr ARGLWYDD a'i eneiuiog:

³ "Gadewch inni ddryllio eu rhwymau,
a thafu ymaith eu rheffynnau."

⁴ Fe chwardd yr un sy'n eistedd yn y
nefoedd;

y mae'r Arglwydd yn eu gwatwar.

⁵ Yna fe lefara wrthynt yn ei lid
a'u dychryn yn ei ddieter:

⁶ "Yr wyf fi wedi gosod fy mrenin
ar Seion, fy mynydd sanctaidd."

⁷ Adroddaf am ddatganiad yr ARGLWYDD.

Dywedodd wrthyf, "Fy mab wyt ti,
myfi a'th genhedlodd di heddiw;

⁸ gofyn, a rhoddaf iti'r cenhedloedd yn
etifeddiaeth,

ac eithafoedd daear yn eiddo iti;

⁹ fe'u drylli â gwialen haearn
a'u malurio fel llestr pridd."

¹⁰ Yn awr, frenhinoedd, byddwch ddoeth;
farnwyr y ddaear, cymerwch gyngor;

¹¹ gwasanaethwch yr ARGLWYDD mewn ofn,
mewn cryndod cusanwch ei draed,

¹² rhag iddo ffromi ac i chwi gael eich difetha;
oherwydd fe gyneua ei lid mewn dim.

Gwyn eu byd y rhai sy'n llochesu ynddo.

Salm. I Ddafydd, pan ffodd rhag ei fab Absalom.

3 ARGLWYDD, mor lluosog yw fy
ngwrthwynebwyf!
Y mae llawer yn codi yn f'erbyn,
² a llawer yn dweud amdanaf,
“Ni chaiff waredigaeth yn Nuw.”

Sela

³ Ond yr wyt ti, ARGLWYDD, yn darian i mi,
yn ogoniant i mi ac yn fy nyrchafu.
⁴ Gwaeddaf yn uchel ar yr ARGLWYDD,
ac etyb fi o'i fynydd sanctaidd.

Sela

⁵ Yr wyf yn gorwedd ac yn cysgu,
ac yna'n deffro am fod yr ARGLWYDD yn fy
nghynnal.
⁶ Nid ofnwn pe bai myrddiwn o bobl
yn ymosod arnaf o bob tu.
⁷ Cyfod, ARGLWYDD; gwareda fi, O fy Nuw.
Byddi'n taro fy holl elynion yn eu hwyneb,
ac yn torri dannedd y drygionus.
⁸ I'r ARGLWYDD y perthyn gwaredigaeth;
bydded dy fendith ar dy bobl.

Sela

**I'r Cyfarwyddwr: ag offerynnau llinynnol.
Salm. I Ddafydd.**

4 Ateb fi pan alwaf, O Dduw fy nghyfiawnder!
Pan oeddwn mewn cyfyngder, gwaredaist fi;
bydd drugarog wrthyf, a gwrando fy
ngweddi.

² Bobl, am ba hyd y bydd fy ngogoniant yn
warth,

ac y byddwch yn caru gwagedd ac yn
ceisio celwydd?

Sela

- ³ Deallwch fod yr ARGLWYDD wedi neilltuo'r
ffyddlon iddo'i hun;
y mae'r ARGLWYDD yn gwrando pan alwaf arno.
⁴ Er i chwi gynddeiriogi, peidiwch â phechu;
er i chwi ymson ar eich gwely, byddwch
ddistaw.

Sela

- ⁵ Offrymwch aberthau cywir,
ac ymddiriedwch yn yr ARGLWYDD.
⁶ Y mae llawer yn dweud, "Pwy a ddengys i
ni ddaioni?"
Cyfoded llewyrch dy wyneb arnom,
ARGLWYDD.
⁷ Rhoddaist fwy o lawenydd yn fy nghalon
na'r eiddo hwy pan oedd llawer o yd a gwin.
⁸ Yn awr gorweddaf mewn heddwch a chysgu,
oherwydd ti yn unig, ARGLWYDD, sy'n peri
imi fyw'n ddiogel.

***P'r Cyfarwyddwr: ar ffliwtiau. Salm.
I Ddafydd.***

- 5** Gwrando ar fy ngeiriau, ARGLWYDD,
ystyria fy nghwynfan;
² clyw fy nghri am gymorth,
fy Mrenin a'm Duw.
³ Arnat ti y gweddïaf, ARGLWYDD;
yn y bore fe glywi fy llais.
Yn y bore paratoaf ar dy gyfer,
ac fe ddisgwyliaf.
⁴ Oherwydd nid wyt Dduw sy'n hoffi
drygioni,